13A | Capel Curig i Lyn Ogwen

Dilynwch y lôn sy'n mynd i'r chwith o siop ddillad/offer awyr agored Joe Brown a pasio'r toiledau. Ewch ymlaen heibio'r maes parcio, drwy giât at lôn lydan bantiog. Mae'r lôn hon yn arwain yr holl ffordd i Lyn Ogwen, ym mhen uchaf Nant Ffrancon.

Ar ôl i chi gyrraedd yr A5, croeswch y ffordd a throwch i'r dde, gan ddilyn y lôn ar y chwith sydd ychydig fetrau yn unig o'ch blaen. Ewch heibio cwt dringo Glan Dena sy'n eiddo i MAM (Midland Association of Mountaineers), gan ddilyn y lôn at fynedfa fferm Glan Dena. Dilynwch y llwybr sydd wedi'i chyfeirio ar y dde, gan ddilyn y wal at gamfa ystol.

Ewch dros y gamfa, gan ddilyn y cyfeirbyst ar y llwybr sy'n arwain ar hyd ochr Llyn Ogwen. Gan ddechrau â'r cyfeirbost cyntaf wrth ymyl y gamfa, dilynwch saethau melyn ag arwyddion Llwybr Llechi Eryri gan anwybyddu saethau coch. Gall y rhan hon fod yn gorsiog ac yn greigiog iawn mewn mannau. Mae'r llwybr yn arwain at argae yn y pen draw ym mhen orllewinol y llyn. Ar ôl dringo i fyny ac i lawr am 2 fetr, mae'r llwybr yn dod at y ffordd fawr.

O'r gamfa gareg yn y wal, trowch i'r chwith i gyfeiriad yr adeiladau lle ceir canolfan awyr agored Ogwen Cottage (Pen-llyn), hostel ieuenctid, canolfan ymwelwyr a thoiledau, a chiosg sy'n gwerthu bwyd/diod.



Uchod: Post amddiffyn yr Ail Ryfel Byd, Llyn Ogwen

Dde Uchod: Pont Pen-y-Benglog, pont gwreiddiol y ffordd

Dde Isod: Llyn Ogwen o`r dwyrain

ARIANNU: Magnox; Cronfa CAE Parc Cenedlaethol Eryri; Sefydliad Foyle; Sefydliad Garfield Weston; Ymddiriedolaeth Oakdale; Sefydliad Cymunedol Cymru; HF Holidays; Horizon; First Hydro; Ymddiriedolaeth Laspen; Cyngor Tref Bethesda; Cyngor Tref Ffestiniog; Elusen Ogwen; Llechi Cymru; Menter Môn; PAVO; Ymddiriedolaeth Ninevah; Ymddiriedolaeth Gaynor Cemlyn-Jones; Mantell Gwynedd; Sefydliad Ashley; Rehau Plastics; Sefydliad Blakemore; Dŵr Cymru.

Mae Ymddiriedolaeth Llwybr Llechi Eryri yn Elusen Gofrestredig, Rhif 1182188.